17 Gorffennaf, 2018.

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Yn dilyn ystyriaeth fanwl y Llywodraethwyr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad diweddar ynglŷn â'r wisg Ysgol, y penderfyniad yw na fydd crys a thei yn cael ei gyflwyno o Fedi 2019 ymlaen ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 7 – 11. Serch hynny, bwriedir newid ychydig o wisg Ysgol y chweched dosbarth o Fedi 2019 ymlaen drwy gyflwyno crys gwyn a thei (traddodiadol) porffor.

Hoffwn gymryd y cyfle yma i atgoffa pawb am rai pwyntiau ynglŷn â rheolau'r wisg Ysgol:

Trowsus / Sgert y Merched:

Byddwn yn caniatáu **trowsus main** (slim fit) o ddefnydd traddodiadol, ond nid leggings, treggings, jeggings, combats na jîns. Rydym yn hapus i dderbyn steiliau gwahanol o sgert, ond dylid osgoi sgertiau byr iawn. Ni fyddwn yn derbyn sgertiau / trowsusau Lycra na Denim, neu rai sydd â zipiau a stydiau metal amlwg.

Esgidiau:

Yn ddelfrydol, esgidiau lledr a chadarn du, ond derbynnir esgidiau cynfas neu dreinyrs plaen du - dim logos, streipiau lliw, bŵts na "high-tops". Dylai'r esgidiau fod yn ddigon cadarn i amddiffyn rhag tywydd anffafriol yn ogystal â bod yn addas ac yn ddiogel mewn gweithdai'r Bloc Technoleg a gwersi yn y labordai.

Gemwaith:

Dim ond un stud (gwaelod y glust yn unig) rydym yn ei ganiatáu.

Gwallt:

Ni chaniateir i ddisgyblion i liwio eu gwallt (lliwiau eithafol) na gwisgo steil gwallt eithafol (e.e. 'tramlines').

Ewinedd:

Caniateir farnais clir yn unig.

'Fleece' Ysgol Swyddogol (opsiynol):

Er bod y gardigan a'r siwmper yn dal yn rhan hanfodol o'r wisg, mae 'fleece' ysgol swyddogol opsiynol ar gael. Bydd hyn yn osgoi'r dadlau diddiwedd gyda rhai disgyblion sy'n gwisgo amrywiaeth liwgar o gotiau a hwdis gwahanol.

Siorts:

Ar ôl gwyliau'r Pasg a than ddiwedd hanner tymor cyntaf Hydref, caniateir siorts plaen, du wedi'u teilwra (defnydd traddodiadol yn hytrach na siorts chwaraeon) hyd y ben-glin. Ni chaniateir siorts denim neu Lycra.

Fel ysgol rydym yn awyddus i gydweithio gyda'n disgyblion a chi, ein rhieni, er mwyn cael gwisg ysgol sy'n smart, yn ymarferol ac yn gyfoes.

Byddwn yn monitro'r wisg ysgol yn wythnosol y flwyddyn nesaf. Diolch am eich cydweithrediad. Amgaeaf ffurflen archebu gwisg Ysgol, gellir prynu'r wisg o'r Brif Dderbynfa.

Yn gywir,

Jane Wyn (Pennaeth)

---

17 July, 2018.

Dear Parent / Guardian,

Following careful consideration by the Governors to the responses received during the recent consultation regarding the school uniform, the decision is not to introduce shirt and tie for Year 7 – 11 pupils from September 2019 onwards. However, it is intended to change the school uniform somewhat for the sixth form from September 2019 onwards by introducing a white shirt and a (traditional) purple tie.

I would like to take this opportunity to remind everyone of some points regarding the school uniform:

Girls' Trousers / Skirts:

We will allow slim-fit trousers, of traditional material, but no leggings, treggings, jeggings, combats or jeans. We are happy to accept a greater variation in skirt styles, but mini-skirts should be avoided. We will not accept skirts / trousers made of Lycra or Denim, or ones with evident metal zips or studs.

Shoes:

Ideally, sturdy leather shoes are preferable, but we will accept canvas shoes or trainers as long as they are black, plain with no logos or colourful stripes, boots or high-top styles. Shoes must also be sturdy enough to afford students adequate protection from the weather conditions and be suitable and safe for the Technology Block workshops and laboratory lessons in school.

Piercings:

We only permit one ‘stud’ (earlobe only).

Hair:

We do not allow students to dye their hair (extreme colours) or have extreme hairstyles (e.g. tramlines).

Nails:

We allow clear nail varnish only.

Official School Fleece:

Although the school jumper / cardigan will remain an official part of the uniform, we have introduced an optional official school fleece. This will avoid endless arguments with some pupils who wear a variety of colourful hoodies and coats.

Shorts:

After the Easter holidays and through to the end of the first October half-term pupils will be able to wear tailored black, knee-length school shorts (traditional material rather than sports shorts). Lycra and denim shorts will not be permitted.

As a school we are eager to work with our pupils and with you our parents in order to agree on a school uniform which is smart, practical and contemporary.

We will be closely monitoring the school uniform on a weekly basis next year. Thank you for your co-operation. I enclose a school uniform order form: items can be purchased from the school reception.

Yours sincerely,

Jane Wyn.

(Headteacher)